

CYNGOR SIR FYNWY

IS-DDEDDFAU

LLYFRGELLOEDD

wedi eu gwneud o dan  
Adran 19 o'r Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac  
Amgueddfeydd 1964

gan

Gyngor Sir Fynwy

S.S.W.Andrews,  
Dirprwy Brif Weithredwr  
Cyngor Sir Fynwy  
Neuadd y Sir,  
Cwmbrân,  
NP44 2XH

## IS-DDEDDFAU LLYFRGELLOEDD

Adran 19 o'r Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964

1. Yn yr is-ddeddfau yma, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:
  - a. mae "y Ddeddf" yn golygu Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964
  - b. mae "ffi" yn golygu unrhyw ffi sydd yn cael ei godi yn unol gyda'r Rheoliadau;
  - c. mae "plentyn" yn golygu person o dan un ar bymtheg mlwydd oed;
  - d. mae "sefyllfa frys" yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd angen gwacau rhan o'r llyfrgell neu'r llyfrgell gyfan am resymau diogelwch neu yn sgil bygythiad gan dân neu unrhyw berygl neu bractis arall a larymau ffug;
  - e. "cyfeiriad olaf sy'n wybyddus" yn golygu'r cyfeiriad olaf ar gofnodion awdurdod y llyfrgell;
  - f. "yr awdurdod llyfrgell" sydd yn golygu Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Cwmbrân;
  - g. Mae "llyfrgell" yn golygu:
    - i. unrhyw eiddo sydd yn cael ei feddiannu gan awdurdod y llyfrgell ac unrhyw eiddo lle y mae cyfleusterau'r llyfrgell ar gael gan yr awdurdod, a hynny wrth ddarparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus, i aelodau'r cyhoedd;
    - ii. unrhyw gerbyd sydd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdod y llyfrgell er mwyn darparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus, i aelodau'r cyhoedd ac yn gerbyd lle y mae cyfleusterau ar gael

- h. mae “swyddog y llyfrgell” yn golygu unrhyw swyddog sydd yn cael ei gyflogi gan awdurdod y llyfrgell fel rhan o’i swyddogaethau o dan y Ddeddf;
  - i. mae “eiddo’r llyfrgell” yn cynnwys eiddo sydd yn berchen neu’n cael ei ddarparu ar gyfer ei ddefnyddio gan awdurdod y llyfrgell, p’un ai bod hyn yn cael ei gynnig gan awdurdod y llyfrgell i’r cyhoedd ac unrhyw eiddo sydd gan awdurdod y llyfrgell ar gyfer benthyg i’r cyhoedd;
  - j. mae “y Rheoliadau” yn golygu Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell (Cymru a Lloegr) 1999 OS 1991/2712;
  - k. mae geiriau sydd yn cynnwys y rhyw gwrywaidd yn cynnwys y geiriau benywaidd yn y ffurf unigol gan gynnwys rhai lluosog a *vice versa*
  - l. mae mynegiadau a ddefnyddir yn meddu ar yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf a’r Rheoliadau.
2. Ni fydd unrhyw weithred a wneir gan swyddog y llyfrgell fel rhan o’r rôl yn ymgymryd a’r dyletswyddau yma yn tramgwyddo unrhyw un o’r is-ddeddfau yma.
  3. Ni fydd unrhyw berson yn rhoi enw neu gyfeiriad ffals er mwyn mynd i mewn i’r llyfrgell neu er mwyn defnyddio unrhyw un o gyfleusterau’r llyfrgell.
  4. Nid oes hawl gan unrhyw berson, sydd yn marn resymol y swyddog llyfrgell yn frwnt, boed mewn person neu ddillad neu’r ddau yn cael aros yn y llyfrgell.
  5. Ac eithrio gyda chaniatâd y swyddog llyfrgell, nid oes hawl gan unrhyw berson:
    - a. achosi neu ganiatáu i unrhyw gi (ac eithrio ci sydd yn gweithio a’n helpu person anabl) neu unrhyw anifail sydd ganddo, i fynd i mewn i’r llyfrgell;
    - b. dod ag unrhyw gerbyd ag olwynion i mewn i unrhyw ran o’r llyfrgell ac eithrio cadair olwyn, pram neu gadair gwthiol
    - c. mynd i mewn neu barhau yn unrhyw rhan o’r llyfrgell lle y mae y person rhesymol yn gwybod, neu dylai’r person wybod, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd, neu;

d. aros yn y llyfrgell ar ôl yr amser cau

6. Ni ddylai unrhyw berson aros yn y llyfrgell wedi iddo ef/hi gael gwybod am sefyllfa frys.
7. Ni ddylai unrhyw berson, oni bai ei fod wedi ei ganiatáu'n benodol gan swyddog llyfrgell, fynd neu geisio mynd ag unrhyw eiddo llyfrgell o'r llyfrgell neu heibio'r orsaf ddiogelwch.
8. Ni ddylai unrhyw berson, heb esgus cyfreithlon, ddifa neu ddifrodi unrhyw eiddo sydd gan y llyfrgell.
9. Ni ddylai unrhyw berson ymddwyn mewn modd anhrefnus mewn llyfrgell, defnyddio iaith dreisgar, anweddus, neu fynd ati'n fwriadol i achosi neu wneud rhywbeth sydd yn debygol o achosi niwed i unrhyw berson neu eiddo.
10. Ni ddylai unrhyw berson gysgu yn y llyfrgell wedi iddynt dderbyn cais gan y swyddog llyfrgell i ymatal rhag gwneud hyn.
11. Ni ddylai unrhyw berson barhau yn y llyfrgell heb wneud defnydd o gyfleusterau'r llyfrgell, ac wedi derbyn cais gan y swyddog llyfrgell i wneud defnydd priodol o'r cyfleusterau.
12. Ni ddylai unrhyw berson sgwrsio yn uchel yn unrhyw ran o'r llyfrgell, mewn unrhyw ran sydd yn adran gyfeirio, rhan astudio neu ddarllen, a hynny wedi cael gwybod gan swyddog llyfrgell i beidio â gwneud hyn neu os yw'r fath sgwrsiau wedi eu gwahardd gan hysbysiad ar ôl derbyn cais i beidio â gwneud hyn gan swyddog llyfrgell.
13. Ni ddylai unrhyw berson, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol, atal y swyddog llyfrgell rhag ymgymryd â'i ddyletswyddau neu ei aflonyddu, atal, ymyrryd, cam-drin neu gythruddo unrhyw berson sydd yn defnyddio'r llyfrgell yn briodol.
14. Ni ddylai unrhyw berson, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, fynd ati i arddangos, dosbarthu neu adael unrhyw hysbysfwrdd, hysbysiadau neu unrhyw ddogfen arall mewn llyfrgell

15. Ni ddylai unrhyw berson, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, geisio gwerthu unrhyw beth mewn llyfrgell neu'n gofyn i bobl lofnodi deiseb.
16. Ni ddylai unrhyw berson sydd yn gyfrifol am blentyn, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, adael y plentyn yn y llyfrgell heb unrhyw oruchwyliaeth.
17. Ni ddylai unrhyw berson ysmegu, tanio matsien neu'n defnyddio taniwr sigarét mewn llyfrgell ac eithrio mewn mannau sydd wedi eu neilltuo'n benodol ar gyfer ysmegu.
18. Ni ddylai unrhyw berson, mewn unrhyw ran o'r llyfrgell, anadlu unrhyw sylweddau gwenwynig neu unrhyw gyffuriau a reolir fel sydd wedi ei ddiffinio gan Atodlen 2 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, ac eithrio cyffuriau sydd wedi eu rhoi ar bresgripsiwn gan feddyg o dan ac yn unol gyda'r Ddeddf.
19. Ni ddylai unrhyw berson, ac eithrio gyda chaniatâd y swyddog llyfrgell, fwyta lluniaeth yn y llyfrgell.
20. Ni ddylai unrhyw berson, heb ganiatâd y swyddog llyfrgell, achosi neu ganiatáu unrhyw ffôn mudol, cyfrifiadur neu gyfarpar trydanol arall, neu gyfarpar ar gyfer derbyn darlledu sŵn neu er mwyn ail-greu sŵn, i gael eu gweithredu yn unrhyw ran o'r llyfrgell sydd yn agored i'r cyhoedd.
21. Ni fydd unrhyw berson sydd:
  - a. yn benthg unrhyw eiddo a fydd, ar ôl cael ei ddychwelyd, yn hwyr
  - b. yn methu talu ffiyn cael benthg unrhyw eiddo arall o'r llyfrgell, ac eithrio gyda chaniatâd y swyddog llyfrgell.

22. a Mae unrhyw berson sydd wedi benthycio eiddo o'r llyfrgell ac yn hwyr yn dychwelyd yr eiddo, ac wedi derbyn hysbysiad gan awdurdod y llyfrgell yn mynnu fod yr eiddo yn cael ei ddychwelyd, yn gorfod dychwelyd yr eiddo o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.
- b. O ran yr is-ddeddf yma, mae modd danfon yr hysbysiad at gyfeiriad y person neu ei ddanfon yn y post.
23. Ac eithrio is-ddeddfau 8 ac 18, mae unrhyw berson sydd yn tramgwyddo unrhyw rai o'r is-ddeddfau o bosib yn medru cael ei erlyn gan awdurdod y llyfrgell a gall y person wynebu dirwy na sydd yn fwy na lefel 2 o'r raddfa safonol ar gyfer pob un achos.
24. Mae'r swyddog llyfrgell yn medru gwahardd unrhyw berson sydd yn tramgwyddo unrhyw un o'r is-ddeddfau mewn unrhyw lyfrgell sydd yn cael ei chynnal gan awdurdod y llyfrgell o dan y Ddeddf.
25. Wrth i'r is-ddeddfau yma ddod yn weithredol, bydd yr is-ddeddfau yma sydd yn ymwneud gyda llyfrgelloedd ac wedi eu gwneud gan Gyngor Sir Fynwy ar y 4ydd diwrnod o Fai 1966 ac wedi eu cadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Gwyddoniaeth ar yr 2ail ddiwrnod o Fedi 1968 yn cael eu dirymu.

Ychwanegwyd SÊL GYFFREDIN )  
CYNGOR SIR FYNWY ) L.S.  
yma ar 19eg Awst 1996 )  
ym mhresenoldeb:- )

A.J. Huntley

Aelod o'r Cyngor

S.M.W. Andrews

Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfreithiwr

Mae'r is-ddeddfau uchod wedi eu cadarnhau ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn dod i rym ar 1af Mai 1997.

H.F. Rawlings

Pennaeth yr Adran Diwylliant a Hamdden

Adran Addysg Swyddfa Cymru

Dyddiad: 26ain Mawrth 1997